**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-807
Ein cyf/Our ref KW/00597/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA
government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

5 Mawrth 2018

Annwyl David ,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Chwefror am ddeiseb Laura Charles-Price yn annog Llywodraeth Cymru i newid y canllawiau ar wobrau presenoldeb mewn ysgolion yng Nghymru.

Mae Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan yn rhoi arweiniad a safonau ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau yr adroddir ar bresenoldeb mewn ffordd gyson. Os oes gan yr ysgol gynllun gwobrwyo presenoldeb ar gyfer disgyblion, yna cyfrifoldeb yr ysgol yw penderfynu ar y meini prawf ar gyfer rhoi'r gwobrau. Mae ysgolion yn pennu eu targedau presenoldeb eu hunain, ar y cyd ag awdurdodau lleol. Mae hyn yn ffordd o sicrhau y caiff amgylchiadau penodol pob ysgol ei ystyried. Y disgwyl yw bod y targedau hyn yn heriol, ond yn realistig.

Ar dudalen 8 o'r canllawiau atodedig rhoddir cyngor ar y defnydd o wobrau a chymhelliannau mewn ysgolion, ynghyd ag ambell astudiaeth achos.

Yn 2014, comisiynwyd Estyn i wneud adolygiad thematig o bresenoldeb mewn ysgolion. Un o brif ganfyddiadau'r adroddiad ar arfer effeithiol mewn ysgolion cynradd yw bod ysgolion sydd â phresenoldeb da neu bresenoldeb sy'n gwella yn defnyddio gwobrau a chymhelliannau i annog presenoldeb. Nododd yr adroddiad y gall hyn fod yn ffordd dda o annog presenoldeb.

Fodd bynnag, hoffai Llywodraeth Cymru bwysleisio bod angen tegwch mewn system o'r fath.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau dysgu i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anabledd (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf). Dylid ystyried hyn wrth benderfynu pwy sy'n gymwys ar gyfer

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


cynlluniau gwobrwyo er mwyn sicrhau nad yw disgyblion ag anableddau a/neu anawsterau dysgu dan anfantais.

Mae Deddf 2010 yn gymwys i bob ysgol a gynhelir ac ysgol annibynnol, gan gynnwys ysgolion arbennig. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno dyletswyddau penodol gyda'r nod o helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni eu hymrwymiadau o dan Ddeddf 2010. Felly, os oes gan ysgol gynllun gwobrwyo presenoldeb, rhaid sicrhau ei fod yn cyd-fynd â darpariaethau Deddf 2010 gan sicrhau nad yw'n rhoi plant ag anableddau neu gyflyrau meddygol dan anfantais. Golyga hyn na ddylai plant neu bobl ifanc sydd â phresenoldeb sy'n llai na 100% am resymau meddygol ddioddef oherwydd hynny, o ran system gwobrwyo presenoldeb yr ysgol.

Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru 'Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal iechyd' hefyd yn berthnasol ac yn bwysig yn y cyd-destun hwn. Yr hyn a ddwedwn yw ei bod yn annerbyniol cosbi dysgwyr am eu presenoldeb os yw'r absenoldeb oherwydd anghenion gofal iechyd. Ni ddylid defnyddio 'absenoldebau awdurdodedig', megis apwyntiadau meddygol, amser teithio i'r ysbyty, amser gwella ar ôl triniaeth ac ati, i gosbi dysgwyr mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gymryd rhan mewn gweithgareddau, teithiau neu wobrau annog presenoldeb.

Gan weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid, mae fy swyddogion ar hyn o bryd yn adolygu'r canllawiau presenoldeb i sicrhau bod y trefniadau'n parhau i ddarparu cefnogaeth effeithiol ac eglurder i awdurdodau lleol, ysgolion, rhieni a dysgwyr. Fel rhan o'r adolygiad hwn, rhoddwn sylw dyledus i gynlluniau gwobrwyo a chymell.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education